**PWYLLGOR BUSNES**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYNIGION I NEWID RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNULLIAD YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 34.1**

Ar 1 Mai 2000, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried gwelliant i Reolau Sefydlog y Cynulliad.

Mae holl Aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cynnig a ganlyn ac fe'i argymhellir i'r Cynulliad. Caiff y newid manwl i'r drafft ei gynnwys yn y cynnig a gaiff ei gyflwyno maes o law.

**Rheol Sefydlog 23, adran 3**

Byddai'r gwelliant arfaethedig yn cyflwyno gweithdrefn Weithredol dros dro i ganiatáu i Weinidog y Cynulliad gymeradwyo is-ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n cael ei gwneud ar y cyd ag un o Weinidogion neu Adrannau Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae Cyfreithwyr y Cynulliad wedi nodi bod angen y ddarpariaeth hon er mwyn delio ag argyfwng presennol clwy'r traed a'r genau a'r angen i wneud gorchmynion o'r fath fel mater o frys. Os y'i cymeradwyir, bydd ei effaith yn dod i ben ar 30 Mehefin. O dan y darpariaethau, bydd gofyn i Weinidogion y Cynulliad osod memorandwm yn hysbysu'r Cynulliad ei fod wedi'i gwneud, ei heffaith ac unrhyw oblygiadau ariannol.

**John Marek**

**Dirprwy Lywydd**

**Mai 2001**